Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad:
**Dydd Llun, 18 Mawrth 2013**

Amser:
**15:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Aled Elwyn Jones (Clerk)**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8144
Business.Committee@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 26 a 26A: Y Cyfnod Ailystyried
(Tudalennau 1 - 14)

### 3. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 21 a 27: Cyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol (Tudalennau 15 - 23)

### 4. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 29 a 30: Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU (Tudalennau 24 - 45)

4 (i) Biliau Perthnasol (Rheolau Sefydlog 29.1, 29.2 a 30)

4 (ii) Gwybodaeth mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 29.3)

4 (iii) Cyfeirio at Bwyllgor (Rheolau Sefydlog 29.4 a 29.5)

4 (iv) Gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (Rheolau Sefydlog 29.2A a 29.6)

At: Y Pwyllgor Busnes

Oddi wrth: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Dyddiad: 18 Mawrth 2013

## Diwygiadau i Reolau Sefydlog 26 a 26A: Y Cyfnod Ailystyried

### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor Busnes i ystyried cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26 a 26A ynghylch y Cyfnod Ailystyried ar gyfer Deddfau a Deddfau Preifat y Cynulliad.

### Cefndir

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

2. Nodir yn Adran 111(6) o'r Ddeddf:

   The standing orders must provide for an opportunity for the reconsideration of a Bill after its passing if (and only if) —

   (a) the Supreme Court decides on a reference made in relation to the Bill under section 112 that the Bill or any provision of it would not be within the Assembly's legislative competence,

   (b) a reference made in relation to the Bill under section 112 is withdrawn following a request for withdrawal of the reference under section 113(2)(b), or

   (c) an order is made in relation to the Bill under section 114.

*Y Rheolau Sefydlog*

3. Mae Rheolau Sefydlog 26.52 i 26.56 yn gwneud y ddarpariaeth berthnasol ynghylch ailystyried Bil ar ôl ei basio. Mae'r un ddarpariaeth i'w gweld yn Rheolau Sefydlog 26A.90 i 26A.95 mewn perthynas â Biliau Preifat.

4. Amlygodd adolygiad o’r gweithdrefnau hyn ar ddiwedd 2012, a gynhaliwyd oherwydd bod disgwyl y gallai fod Cyfnod Ailystyried mewn perthynas â’r Bil Is-ddeddfau, rai bylchau yn y Rheolau Sefydlog yr oedd angen mynd i’r afael â hwy.

### Cynigion ar gyfer newid y drefn

5. Cynigir diwygio’r Rheolau Sefydlog perthnasol i fynd i’r afael â’r materion a nodwyd. Bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod cyfres gliriach a mwy cynhwysfawr o weithdrefnau ar gyfer y Cyfnod Ailystyried.

6. Mae’r cynigion fel y’u nodir yn Atodiadau A a B wedi’u cynllunio i egluro’r hyn a ganlyn:

   - bod rhaid i gynnig y dylai’r Cynulliad ailystyried Bil gael ei dderbyn cyn i’r Cyfnod Ailystyried ddechrau, yn hytrach na’i fod yn cael ei drafod ar yr un diwrnod â gwelliannau i’r Bil. Nid yw hyn yn glir ar hyn o bryd;

   - bod rhaid i 15 diwrnod o leiaf fynd heibio rhwng dechrau’r Cyfnod Ailystyried (sef pan fydd y Cynulliad yn derbyn y cynnig y dylai’r Bil gael ei ailystyried) a chyfarfod cyntaf y Cynulliad sy’n ystyried gwelliannau. Mae hyn yn cyd-fynd â’r darpariaethau ar gyfer Cyfnod 2 a Chyfnod 3;

   - bod y cynnig y dylai’r Bil gael ei basio yn cael ei wneud heb rybudd, fel yn y Cyfnod Terfynol.

### Cam i’w gymryd

7. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y Rheolau Sefydlog drafft arfaethedig yn Atodiad B **a chytuno arnynt mewn egwyddor.**

Atodiad A



| RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad | |
|---|---|
| Ailystyried Biliau a Basiwyd | |
| 26.52 Ar ôl i'r Bil gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:<br><br>(i) os oes cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;<br><br>(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a<br><br>(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26.53 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil:<br><br>(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | |
|---|---|
| Cynulliad; neu<br><br>(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil o dan adran 114 o'r Ddeddf. | |
| 26.53A Mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 26.52 neu 26.53 gael ei dderbyn gan y Cynulliad. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd hon yn addasiad o Reol Sefydlog 26.29 ar gyfer trafodion Cyfnod 3. Mae'n ei gwneud yn glir mai derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52 neu 26.53 yw'r man cychwyn ar gyfer y Cyfnod Ailystyried a chyflwyno gwelliannau. |
| 26.53B Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog hon yn addasiad o Reol Sefydlog 26.30 ar gyfer trafodion Cyfnod 3. Mae cyfnod o 15 diwrnod yn gymwys rhwng Cyfnodau 2 a 3 a chynigir y dylid cael yr un cyfnod yn achos y Cyfnod Ailystyried.<br><br>Yn ymarferol, mae'r cyfnod o 15 diwrnod yn peri bod o leiaf 10 diwrnod rhwng penderfyniad y Cynulliad i ailystyried Bil a'r dyddiad cau i gyflwyno gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Ailystyried. Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol yn rhydd i ymestyn y cyfnod hwn drwy drefnu i drafodion y Cyfnod Ailystyried gael eu cynnal ar ôl cyfnod hwy na'r cyfnod byrraf gofynnol. |

| | |
|---|---|
| 26.54 Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26.55 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:<br>(i) y cyfeiriad at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad rhagarweiniol;<br>(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu<br>(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26.56 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Mae'r diwygiad yn peri i'r Rheol Sefydlog hon gyd-fynd â'r Rheol Sefydlog ar gyfer Cyfnod 4: y Cyfnod Terfynol, ac mae'n dileu'r angen i gynnig ffurfiol y dylai'r Bil gael ei basio gael ei gyflwyno bum diwrnod o flaen llaw. |

| RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Cynulliad | |
|---|---|
| **Ailystyried Biliau Preifat a Basiwyd** | |
| 26A.90 Ar ôl i'r Bil Preifat gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:<br><br>(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Preifat wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;<br><br>(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a<br><br>(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall. | Cadw'r Rheol Sefydlog hon |
| 26A.91 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat:<br><br>(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu na fyddai'r Bil Preifat neu unrhyw ddarpariaeth | Cadw'r Rheol Sefydlog hon |

| | |
|---|---|
| ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu<br><br>(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Preifat o dan adran 114 o'r Ddeddf. | |
| 26A.91A Mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 26A.90 neu 26A.91 gael ei dderbyn gan y Cynulliad. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd hon yn addasiad o Reol Sefydlog 26.29 ar gyfer trafodion Cyfnod 3. Mae'n ei gwneud yn glir mai derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52 neu 26.53 yw'r man cychwyn ar gyfer y Cyfnod Ailystyried a chyflwyno gwelliannau. |
| 26A.91B Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog hon yn addasiad o Reol Sefydlog 26.30 ar gyfer trafodion Cyfnod 3. Mae cyfnod o 15 diwrnod yn gymwys rhwng Cyfnodau 2 a 3 a chynigir y dylid cael yr un cyfnod yn achos y Cyfnod Ailystyried.<br><br>Yn ymarferol, mae'r cyfnod o 15 diwrnod yn peri bod o leiaf 10 diwrnod rhwng penderfyniad y Cynulliad i ailystyried Bil a'r dyddiad cau i gyflwyno gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Ailystyried. Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol yn rhydd i ymestyn y cyfnod hwn drwy drefnu i drafodion y Cyfnod Ailystyried gael eu cynnal ar ôl cyfnod hwy na'r |

| | |
|---|---|
| | cyfnod byrraf gofynnol. |
| 26A.92 Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26A.93 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Preifat yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.100, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:<br><br>(i) y cyfeiriad at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad rhagarweiniol;<br><br>(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu<br><br>(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26A.94 Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | |
|---|---|
| 26A.95 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Preifat a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Mae'r diwygiad yn peri i'r Rheol Sefydlog hon gyd-fynd â'r Rheol Sefydlog ar gyfer Cyfnod 4: y Cyfnod Terfynol, ac mae'n dileu'r angen i gynnig ffurfiol y dylai'r Bil gael ei basio gael ei gyflwyno bum diwrnod o flaen llaw. |

Atodiad B

RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad

Ailystyried Biliau a Basiwyd

26.52 Ar ôl i'r Bil gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:

(i) os oes cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;

(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a

(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall.

26.53 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26.53A Mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 26.52 neu 26.53 gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26.53B Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.

26.54 Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26.55 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) y cyfeiriad at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad rhagarweiniol;

(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26.56 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

## RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Cynulliad

### Ailystyried Biliau Preifat a Basiwyd

26A.90 Ar ôl i'r Bil Preifat gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:

(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Preifat wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;

(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a

(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall.

26A.91 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu na fyddai'r Bil Preifat neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Preifat o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26A.91A Mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 26A.90 neu 26A.91 gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26A.91B Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.

26A.92 Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26A.93 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Preifat yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.100, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) y cyfeiriad at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad rhagarweiniol;

(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26A.94 Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat.

26A.95 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Preifat a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

At: Y Pwyllgor Busnes

Oddi wrth: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Dyddiad: 18 Mawrth 2013

**Diwygiadau i Reolau Sefydlog 21 a 27: Cyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol**

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor Busnes i ystyried cynigion i ddiwygio darpariaethau Rheol Sefydlog 21 sy'n pennu'r dyddiadau cau ar gyfer gwaith y pwyllgor(au) cyfrifol o gyflwyno adroddiadau ar offerynnau statudol ac offerynnau statudol drafft sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Cynigir hefyd ddiwygiadau canlyniadol i Reol Sefydlog 27, sy'n pennu pryd y ceir trafod cynnig i gymeradwyo offerynnau o'r fath yn y Cyfarfod Llawn.

**Cefndir**

2. Dyma'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 21.4 ar hyn o bryd:

> *Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.*

3. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn nodi gweithdrefn i'r Cynulliad ystyried Gorchmynion drafft y bydd Gweinidogion Cymru yn eu gosod o dan y Ddeddf sy'n cynnwys terfynau amser penodol i'r Cynulliad ac i'r pwyllgor cyfrifol gadw atynt wrth ystyried Gorchmynion o'r fath.

4. Yn ei lythyr ar 21 Tachwedd 2012 ynghylch penderfyniad y Pwyllgor i ddefnyddio'r cyfnod llawn o 60 diwrnod a ddarperir gan y Ddeddf i gyflwyno adroddiad ar Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012, awgrymodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

   *I think there is a strong case for amending standing orders to remove anomalies that can arise as a consequence of differing procedural requirements existing between primary legislation and our standing orders.*

5. Yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2012, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried diwygio'r Rheolau Sefydlog i ymdrin â'r anghysondebau sy'n codi o weithdrefnau yn neddfwriaeth y DU neu ddeddfwriaeth Cymru sy'n effeithio ar amseriad y broses o gyflwyno adroddiad ar is-ddeddfwriaeth.

**Cynigion ar gyfer newid y drefn**

6. Cynigir diwygio'r Rheolau Sefydlog perthnasol i fynd i'r afael â'r anghysondebau sydd wedi'u nodi. Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol nid yn unig i Orchmynion a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, ond hefyd o dan unrhyw Ddeddfau eraill a allai bennu amserlen mewn perthynas â gwaith y Cynulliad o ystyried offerynnau statudol.

7. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 21 yn pennu proses y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei dilyn i sefydlu amserlen ar gyfer gwaith y pwyllgor(au) perthnasol o gyflwyno adroddiad ar yr offeryn statudol (drafft). Wrth sefydlu amserlen, bydd angen i'r Pwyllgor Busnes ystyried gofynion penodol y deddfiad galluogi.

8. Mae'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 27 yn ei gwneud yn glir nad yw Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys i offerynnau statudol o'r fath, sy'n

golygu mai darpariaethau'r deddfiad galluogi a fydd yn pennu pryd y caiff y Cynulliad gynnal dadl ar gynnig i gymeradwyo'r offeryn statudol.

**Cam i'w gymryd**

9. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y Rheolau Sefydlog drafft arfaethedig yn Atodiad B, a **chytuno arnynt mewn egwyddor**.

Atodiad A

| RHEOL SEFYDLOG 21 - Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | |
|---|---|
| Swyddogaethau | |
| 21.4 Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod. | **Dim newid** |
| 21.4A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, yna:<br>i) ni fydd y terfyn amser yn Rheol Sefydlog 21.4 yn gymwys;<br>ii) caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog newydd hon yn rhoi'r pŵer i'r Pwyllgor Busnes bennu amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor MCD) o gyflwyno adroddiad ar unrhyw offeryn statudol a wneir o dan Ddeddf sy'n nodi gweithdrefn a fydd yn peri bod y terfyn amser arferol, sef 20 diwrnod, yn anaddas.<br><br>Wrth bennu'r amserlen, bydd angen i'r Pwyllgor Busnes ganfod cydbwysedd rhwng angen y Pwyllgor MCD i graffu'n briodol ar y Gorchymyn a'r angen i ganiatáu amser i'r Llywodraeth ac Aelodau eraill weithredu unrhyw rôl sydd ganddynt yn y weithdrefn.<br><br>Er enghraifft, o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, caniateir 30 diwrnod i gychwyn y weithdrefn gadarnhaol "ddyrchafedig". Er y gallai fod yn rhesymol caniatáu i'r Pwyllgor MCD gyflwyno adroddiad ar ôl cyfnod hwy nag 20 diwrnod, mae'n bosibl y bydd y |

| | |
|---|---|
| | Pwyllgor Busnes yn penderfynu y dylai'r Pwyllgor MCD gyflwyno adroddiad ar yr agwedd honno ymhell cyn y 30ain diwrnod, fel bod modd i'r Cynulliad wrthod yr argymhelliad os yw'r Llywodraeth yn cyflwyno i'r perwyl hwnnw, fel y gall wneud o dan y Ddeddf. Ar y llaw arall, pe bai'r Pwyllgor MCD yn penderfynu na ddylai'r weithdrefn "ddyrchafedig" fod yn gymwys, byddai'n rhaid iddo fod wedi gwneud hynny mewn digon o amser i alluogi Aelod arall i gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Cynulliad benderfynu y dylai'r weithdrefn hon fod yn gymwys.<br><br>Os caiff y weithdrefn gadarnhaol ddyrchafedig ei chychwyn, bydd modd wedyn i'r Pwyllgor MCD ystyried yn fwy trylwyr agweddau eraill ar y ddeddfwriaeth ddrafft.<br><br>Bydd y Rheol Sefydlog newydd yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes benderfynu pa ddyddiadau cau sy'n briodol ym mhob achos ar gyfer gwaith y Pwyllgor MCD o gyflwyno adroddiad. |
| 21.5 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 21.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod. | **Dim newid** |

| RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig) | |
|---|---|
| **Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol)** | |
| 27.5 Yn achos unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad nad yw, oni bai bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo drwy gynnig, yn gallu:<br>(i) cael ei wneud;<br>(ii) dod i rym; neu<br>(iii) parhau mewn grym ar ôl y cyfnod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn,<br>caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 i gymeradwyo'r offeryn neu'r offeryn drafft. | **Dim newid** |
| 27.6 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5. | **Dim newid** |
| 27.7 Ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y cyfarfod llawn nes y bydd naill ai:<br>(i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r | **Dim newid** |

| | |
|---|---|
| hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn neu'r drafft; neu<br><br>(ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod,<br><br>pa un bynnag yw'r cyntaf. | |
| 27.7A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, ni fydd Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys. | **Cynnwys Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog hon yn egluro nad yw Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys mewn unrhyw achos lle y mae terfynau amser wedi'u pennu yn y deddfiad galluogi.<br><br>Mewn achosion o'r fath, yr amserlen yn y deddfiad a fydd yn pennu pryd y ceir trafod cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5. |

Atodiad B

RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Swyddogaethau

21.4 Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

21.4A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, yna:

i) ni fydd y terfyn amser yn Rheol Sefydlog 21.4 yn gymwys;

ii) caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno.

21.5 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 21.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig)

Cynnig ar gyfer Cymeradwyo (Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol)

27.5 Yn achos unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Cynulliad nad yw, oni bai bod y Cynulliad yn ei gymeradwyo drwy gynnig, yn gallu:

(i) cael ei wneud;

(ii) dod i rym; neu

(iii) parhau mewn grym ar ôl y cyfnod a bennwyd yn y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr offeryn,

caiff unrhyw aelod o'r llywodraeth gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 i gymeradwyo'r offeryn neu'r offeryn drafft.

27.6 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 27.5.

27.7 Ni chaniateir ystyried cynnig o dan Reol Sefydlog 27.5 yn y cyfarfod llawn nes y bydd naill ai:

(i) y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a ragnodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 ac unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 27.8, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn neu'r drafft; neu

(ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod,

pa un bynnag yw'r cyntaf.

27.7A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Cynulliad o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, ni fydd Rheol Sefydlog 27.7 yn gymwys.

**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Oddi wrth:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** 18 Mawrth 2013

**Diwygio Rheolau Sefydlog 29 a 30: Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU**

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor Busnes i ystyried cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 29 a 30 ynghylch Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'r newidiadau arfaethedig i'w gweld yn Atodiadau A a B.

**Cefndir**

2. Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad, 'Ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU'. Roedd nifer o argymhellion y Pwyllgor yn galw am ddiwygiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad, ac felly roedd angen i'r Pwyllgor Busnes ymateb iddynt.

3. Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfodydd ar 12 a 19 Mehefin 2012, ac roedd modd iddo ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn ei drafodaethau. Yn ei ymateb, croesawodd y Pwyllgor Busnes y cyfle yr oedd yr adroddiad yn ei roi i adolygu gweithdrefnau'r Cynulliad yn y maes hwn, ac ymatebodd yn gadarnhaol i bob argymhelliad a oedd yn galw am ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Yn ei ymateb, nododd y Pwyllgor hefyd:

> *Mae angen trafod ymhellach sut yn union y caiff yr argymhellion hynny eu gweithredu, a hynny yn y Cynulliad ac yn rhynglywodraethol, a dyna'r rheswm dros dderbyn argymhellion CLAC 'mewn egwyddor' yn aml. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes yn ymrwymedig i fwrw ymlaen â'r*

*newidiadau hynny sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein hamcan cyffredinol o sicrhau prosesau craffu cadarn yn y Cynulliad ar unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU sy'n berthnasol.*

4. Ers hynny, mae swyddogion o Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddrafftio cyfres o ddiwygiadau arfaethedig sy'n gweithredu argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

5. Mae'r cynigion yn y papur hwn wedi'u cynllunio i roi argymhellion 5, 6 a 7 o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar waith. Mae gwaith yn parhau ar ddrafftio Rheol Sefydlog newydd a fydd yn rhoi argymhelliad 11 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar waith, a bydd cynigion i'r perwyl hwn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes maes o law.

**Newidiadau arfaethedig sy'n deillio o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac ymateb y Pwyllgor Busnes**

*Argymhelliad 5 – Rydym yn argymell y dylid dileu Rheol Sefydlog 30 a diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth Senedd y DU ar unrhyw fater sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru.*

6. Roedd hwn yn argymhelliad allweddol yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Ar hyn o bryd, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 yn ofynnol os bydd un o Filiau'r DU yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu os yw'n dwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw. Ar y llaw arall, os bydd Bil yn gwneud darpariaeth sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru, neu sy'n cael effaith (nad yw'n effaith negyddol) ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, nid oes angen

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol; bydd y Llywodraeth yn gosod datganiad yn unig o dan Reol Sefydlog 30 sy’n hysbysu’r Cynulliad am y ddarpariaeth.

7. Argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oedd y dylai fod angen cydsyniad y Cynulliad drwy gyfrwng Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos unrhyw ddarpariaeth yn un o Filiau’r DU sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu sy’n effeithio arno, neu sy’n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Byddai’r diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 29.1, ynghyd â dileu Rheol Sefydlog 30, yn rhoi’r argymhelliad hwn ar waith, y gwnaeth y Pwyllgor Busnes ei dderbyn yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Byddai’r diwygiadau arfaethedig yn peri i gwmpas gweithdrefnau’r Cynulliad gyd-fynd â rhai Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

8. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, cynigir bod cwmpas Rheol Sefydlog 29.1(ii) yn cael ei ehangu fel bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos darpariaethau sy’n addasu cymhwysedd y Cynulliad mewn unrhyw ffordd. Ar hyn o bryd, dim ond yn achos darpariaethau sy’n dwyn “effaith negyddol” y mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

9. Yn y dyfodol, byddai angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn achos darpariaethau ym Miliau’r DU sy’n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (Rheol Sefydlog 29.1(iii) newydd)). Ar hyn o bryd, dim ond datganiad o dan Reol Sefydlog 30 y mae’n ofynnol i’r Llywodraeth ei osod yn achos darpariaethau o’r fath, ac nid yw’n ofynnol i’r Cynulliad gydsynio drwy gyfrwng Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

10. Gan fod hyn yn ehangu cwmpas y broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y tu hwnt i'r cytundeb rhynglywodraethol presennol, a nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 9, mae angen i Lywodraeth Cymru gytuno â Llywodraeth y DU i ddiwygio Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 9 er mwyn ei gwneud yn broses effeithiol. Nododd y Pwyllgor Busnes hyn yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a chytunodd y byddai'n ystyried hyn wrth benderfynu pryd y dylid rhoi'r newid ar waith.

11. Er y gellid cymryd bod argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn awgrymu y dylai fod angen cydsyniad deddfwriaethol yn achos *pob* mater sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, sy'n addasu ei gymhwysedd neu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, cynigir na ddylai fod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos darpariaethau sy'n "[d]darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad". Felly, caiff y cyfyngiad sy'n bodoli eisoes yn Rheol Sefydlog 29.1(i) ei gadw, a chaiff ei ymestyn i Reol Sefydlog 29.1(iii) newydd arfaethedig.

*Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod pob Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (gan gynnwys y materion sydd wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 30 bellach), oni bai bod amgylchiadau eithriadol, yn cael ei gyfeirio at bwyllgor Cynulliad i graffu'n fanwl arno.*

12. Yn ei ymateb, cytunodd y Pwyllgor Busnes mai cyfeirio Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol at bwyllgor ddylai fod y drefn arferol, ac ymrwymodd i weithio gyda'r Llywodraeth i gytuno ar eiriad addas ar gyfer Rheol Sefydlog ddiwygiedig a fydd yn rhoi'r egwyddor hon ar waith.

13. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 29.4 yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.

*Argymhelliad 7: Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 29 fel na all Llywodraeth Cymru gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol nes bod y pwyllgor perthnasol wedi cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.*

14. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dywedodd y Llywodraeth y byddai am amodi unrhyw gyfyngiad o'r fath drwy ddatgan na fyddai'r Cynnig yn cael ei gyflwyno 'yn arferol' nes bod y pwyllgor wedi adrodd arno. Ar y pryd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried pa eiriad a fyddai'n rhoi'r diogelwch mwyaf priodol i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i graffu'n briodol ac yn amserol.

15. Yn dilyn trafodaethau â'r Llywodraeth, rydym yn cynnig na ddylid diwygio Rheol Sefydlog 29.8 ynghylch amseriad y broses o gyflwyno cynnig a'i drafod. Rydym yn awgrymu bod y ddarpariaeth bresennol, sef 'ni chaniateir trafod', yn ddull gwell o sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i graffu'n briodol ac yn amserol nag a fyddai 'yn arferol, ni chaniateir cyflwyno'r cynnig', ac felly rydym yn cynnig y dylid cadw'r ddarpariaeth hon.

16. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i ystyried y cynnig a wnaeth y Llywodraeth yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sef y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddiddymu'r gofyniad ar Lywodraeth Cymru i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer pob Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodir.

17. Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 29.6 yn diddymu'r orfodaeth ar y Llywodraeth i osod cynnig ar gyfer pob memorandwm a osodir. Y bwriad yw y byddai hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth

gyflwyno memorandwm yn gynnar yn y broses, efallai cyn iddi ffurfio barn ar fanylion y cynnig, a chyflwyno memoranda atodol/diwygiedig cyn cyflwyno cynnig, pe bai'n dymuno gwneud hynny.

18. Gan nad oes rhaid bellach i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig ar gyfer pob memorandwm, cynigir y dylid gwneud darpariaeth drwy gyfrwng Rheol Sefydlog 29.2A newydd fel y gallai unrhyw Aelod arall wneud hynny pe bai'n dymuno. Byddai angen i unrhyw Aelod sy'n dymuno gwneud hynny osod memorandwm ei hun, ond fel rheol ni fyddai'n gwneud hynny nes bod y Llywodraeth wedi gosod ei memorandwm ei hun yng nghyswllt y Bil.

19. Rhagwelwn y byddai Aelodau yn defnyddio'r weithdrefn hon pe bai'r Llywodraeth, am ba reswm bynnag, wedi nodi nad oedd yn bwriadu gosod cynnig mewn perthynas â Bil penodol. Mae gweithdrefn o'r fath yn bodoli eisoes yn yr Alban, ond fe'i defnyddiwyd unwaith yn unig hyd yma, sef mewn perthynas â Bil yr Alban; yn yr achos hwnnw, nid oedd Llywodraeth yr Alban yn dymuno cydsynio i'r darpariaethau yn y Bil.

20. Gyda'i gilydd, byddai'r newidiadau hyn yn peri i weithdrefnau'r Cynulliad gyd-fynd â gweithdrefnau'r Alban, lle nad oes rhaid i'r Llywodraeth osod cynnig ar gyfer pob memorandwm a osodir a lle y gall Aelodau eraill wneud hynny.

## Newidiadau arfaethedig eraill

21. Mae dau newid arfaethedig sydd y tu allan i gwmpas adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac ymateb y Pwyllgor Busnes iddo.

22. Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 29.2 yn ehangu ei chwmpas er mwyn iddi gynnwys Biliau Preifat yn Senedd y DU. Pan

gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, nid oedd gan y Cynulliad ei ddarpariaethau ei hun ar gyfer ymdrin â Biliau Preifat. Cytunodd y Cynulliad ar y darpariaethau newydd yn Rheol Sefydlog 26A yng nghyswllt Biliau Preifat ym mis Mehefin 2012.

23. Mae'r ddarpariaeth arfaethedig newydd yn Rheol Sefydlog 29.3(iv) yn gweithredu argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol ar 25 Mehefin 2012[1], sef: 'rhaid i unrhyw Femorandwm gynnwys manylion y weithdrefn Cynulliad a fyddai'n gymwys i'r holl bwerau deddfu a roddir i Weinidogion Cymru drwy gyfrwng Bil San Steffan.'

## Cam i'w gymryd

24. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y Rheolau Sefydlog drafft arfaethedig yn Atodiad B **a chytuno arnynt mewn egwyddor**.

[1] http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=235615&ds=6/2012

Atodiad A

| | |
|---|---|
| **RHEOL SEFYDLOG 29 - Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU** | |
| **Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Cydsyniad y Cynulliad ar ei chyfer** | |
| 29.1 Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru:<br><br>(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad); neu<br><br>(ii) sy'n ~~dwyn effaith negyddol ar~~ addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu<br><br>(iii) sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br>Nodwyd yn Argymhelliad 5 o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol 'y dylid dileu Rheol Sefydlog 30 a diwygio Rheol Sefydlog 29 fel bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth Senedd y DU ar unrhyw fater sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau Gweinidogion Cymru'.<br>Derbyniodd y Llywodraeth a'r Pwyllgor Busnes yr argymhelliad hwn.<br><br>Mae'r diwygiadau hyn yn ychwanegu at y mathau o Filiau Perthnasol o dan Reol Sefydlog 29 er mwyn cynnwys y rhai a oedd yn Rheol Sefydlog 30 o'r blaen. Mae hyn yn golygu y dylai fod angen cydsyniad y Cynulliad yn y dyfodol drwy gyfrwng Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos unrhyw ddarpariaeth yn un o Filiau'r DU sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu sy'n effeithio arno, neu sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae'r meini prawf a restrir ym mhwyntiau (i), (ii) a (iii) yn |

| | |
|---|---|
| arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad); | gynyddol o ran eu heffaith, a disgwylir y bydd mwyafrif y Biliau sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn dod o fewn maen prawf (i) beth bynnag. Felly, bydd maen prawf (iii) yn gymwys yn bennaf yn achos Biliau sy'n effeithio ar y rhai hynny o swyddogaethau Gweinidogion Cymru sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.<br><br>Caiff cwmpas Rheol Sefydlog 29.1(ii) ei ehangu fel bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos darpariaethau sy'n addasu cymhwysedd y Cynulliad mewn unrhyw ffordd. Ar hyn o bryd, dim ond yn achos darpariaethau sy'n dwyn "effaith negyddol" y mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.<br><br>Yn ôl Rheol Sefydlog 29.1(iii) newydd, byddai angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn achos darpariaethau ym Miliau'r DU sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (Rheol Sefydlog 29.1(iii) newydd). Ar hyn o bryd, dim ond datganiad o dan Reol Sefydlog 30 y mae'n ofynnol i'r Llywodraeth ei osod yn achos darpariaethau o'r fath, ac nid yw'n ofynnol i'r Cynulliad gydsynio drwy gyfrwng Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. |
| **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** | |

29.2 Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm ("memorandwm cydsyniad deddfwriaethol") mewn perthynas â'r canlynol:

(i) unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;

(ii) unrhyw Fil Aelod Preifat yn Senedd y DU a oedd yn Fil perthnasol pan y'i cyflwynwyd ac sy'n dal yn Fil perthnasol ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod hwnnw;

(iii) unrhyw Fil Preifat y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;

(iv~~ii~~) unrhyw Fil a gyflwynir yn Senedd y DU sydd (neu a fyddai), yn rhinwedd gwelliannau:

(a) a dderbynnir; neu

(b) a gyflwynir gan un o Weinidogion y

**Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**

Ar ôl symud i Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyflwyno gweithdrefnau o dan Reol Sefydlog 26A sy'n galluogi'r Cynulliad i ymdrin â Biliau Preifat, rydym o'r farn ei bod yn briodol bod unrhyw Filiau Preifat a gyflwynir yn San Steffan y mae eu darpariaethau yn dod o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 29.1 yn cael eu cynnwys yn y Rheol Sefydlog hon.

Mae'r drafft yn pennu'r amserlen ar gyfer Biliau Preifat i fod yr un fath ag yn achos Biliau Llywodraeth.

| | |
|---|---|
| Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi,<br><br>yn y naill Dŷ neu'r llall, yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd o'r blaen gan y Cynulliad, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn. | |
| 29.2A <u>Rhaid i unrhyw aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, sy'n bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil perthnasol osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn gyntaf, ond rhaid iddo beidio â gwneud hynny fel rheol nes bod aelod o'r llywodraeth wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil hwnnw.</u> | Rhaid i'r Llywodraeth osod memorandwm p'un a yw'n bwriadu cyflwyno cynnig neu beidio. Fodd bynnag, gall aelodau eraill osod memorandwm dim ond os ydynt yn bwriadu cyflwyno cynnig.<br><br>Mae'r ddarpariaeth sy'n galluogi Aelod, ac eithrio aelod o'r Llywodraeth, osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn un newydd, a chaiff ei chyflwyno oherwydd mae'r diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 29.6 yn golygu na fydd yn ofynnol mwyach i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig ar gyfer pob memorandwm. Byddai'n rhaid i unrhyw Aelod sydd am osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol osod memorandwm ei hun, ond ni fyddai'n gwneud hynny fel rheol nes bod y Llywodraeth wedi gosod ei memorandwm ei hun mewn perthynas â'r Bil hwnnw. |

| | |
|---|---|
| | |
| 29.3 Rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol:<br><br>(i) crynhoi amcanion polisi'r Bil;<br><br>(ii) pennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol; a<br><br>(iii) esbonio a fernir ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud ac iddi gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil;<br><br>(iv) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, nodi'r weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod odani;<br><br>(v) os gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol eisoes mewn perthynas â'r un darpariaethau yn yr un Bil, nodi sut a pham y mae'r memorandwm newydd yn wahanol i'r | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Mae pwynt (iv) newydd wedi'i ychwanegu yn unol â'r awgrym a ganlyn a wnaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol: 'rhaid i unrhyw Femorandwm gynnwys manylion y weithdrefn Cynulliad a fyddai'n gymwys i'r holl bwerau deddfu a roddir i Weinidogion Cymru drwy gyfrwng Bil San Steffan'. Mae'r ddarpariaeth yn ailadrodd y ddarpariaeth yn 26.6 (vii) mewn perthynas â Biliau'r Cynulliad.<br><br>Gan nad yw bellach yn angenrheidiol gosod cynnig yn sgîl/gyda phob memorandwm, mae lle i'r llywodraeth osod memorandwm diwygiedig pe bai ei bwriadau, neu gynnwys y Bil, yn newid cyn iddi osod cynnig. Byddai unrhyw femorandwm diwygiedig yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau ag yr oedd yr un gwreiddiol yn ddarostyngedig iddynt. Ychwanegwyd is-bwynt (v) i'w gwneud yn glir, os gosodir memorandwm 'diwygiedig', fod yn rhaid iddo nodi'r newidiadau a wnaed ers y memorandwm gwreiddiol. |

| | |
|---|---|
| memorandwm blaenorol. | Yn wahanol i Reolau Sefydlog yr Alban, nid yw'r drafft yn cynnig y dylai memorandwm gynnwys cynnig drafft. Bwriad hyn yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Llywodraeth a pheri i femoranda gael eu gosod yn gynharach, efallai cyn i fanylion cynnig gael eu llunio.<br><br>Mae darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon yn gymwys i femoranda y bydd y llywodraeth yn eu gosod o dan Reol Sefydlog 29.2 a'r rhai y bydd aelodau eraill yn eu gosod o dan Reol Sefydlog 29.2A.<br><br>Y gofynion lleiaf sydd wedi'u nodi yn y Rheol Sefydlog hon, ac, fel y gwnaed yn glir yn nyfarniad y Dirprwy Lywydd ar 26.06.12: 'mae Gweinidogion yn rhydd i ddarparu mwy o wybodaeth na'r hyn sydd wedi'i nodi fel lleiafswm yn y Rheolau Sefydlog os ydynt yn dymuno, ac os ydynt yn credu y byddai'n helpu'r Cynulliad i drafod unrhyw fater penodol.' |
| 29.4 ~~Caiff y~~ Rhaid i'r Pwyllgor Busnes:<br><br>(i) fel rheol gyfeirio unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried a<br><br>(ii) sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Mae'r diwygiad yn golygu bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes fel rheol gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at bwyllgor. Mae'r drafft yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio, fel yr amlinellwyd yn ei hymateb i adroddiad y |

| | |
|---|---|
| ystyried y memorandwm a chyflwyno adroddiad arno. | Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. |
| ~~29.5 Os caiff memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei gyfeirio at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau ystyried y memorandwm a chyflwyno adroddiad arno.~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Mae darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon bellach wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 29.4, uchod. |
| **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** | |
| 29.6 ~~Pan gaiff memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei osod, rhaid i'r llywodraeth~~ Ar ôl i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod, caiff unrhyw aelod, yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 29.2A, gyflwyno cynnig ("cynnig cydsyniad deddfwriaethol") ~~y mae'n rhaid iddo ofyn~~ sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno i ddarpariaeth berthnasol gael ei chynnwys mewn Bil perthnasol. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br>Mae'r newid hwn yn torri'r cyswllt rhwng y cynnig a'r memorandwm o ran yr amseriad, gan ddatgan yn glir y caiff y cynnig ei osod ar ôl y memorandwm, ond heb bennu dyddiadau cau yn hynny o beth.<br><br>Mae'r newid hefyd yn diddymu'r orfodaeth ar y llywodraeth i gyflwyno cynnig ar gyfer pob memorandwm a osodir. Y bwriad yw y byddai hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth gyflwyno memorandwm yn gynnar yn y broses, efallai cyn iddi ffurfio barn ar fanylion y cynnig, a chyflwyno memoranda atodol/diwygiedig cyn cyflwyno cynnig, pe bai'n dymuno gwneud hynny.<br><br>Gan na fydd y llywodraeth o reidrwydd yn cyflwyno cynnig bob |

| | |
|---|---|
| | tro mwyach, gwneir darpariaeth ar gyfer sicrhau y gall unrhyw aelod gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Rhagwelwn y byddai Aelodau yn defnyddio'r weithdrefn hon pe bai'r Llywodraeth, am ba reswm bynnag, wedi nodi nad oedd yn bwriadu gosod cynnig mewn perthynas â Bil penodol. |
| 29.7 Rhaid i gynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'i gyflwyno gael ei ystyried gan y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 29.8 ~~Os caiff~~ <u>Pan gaiff</u> memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'w ystyried gan bwyllgor neu bwyllgorau yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, ni chaniateir trafod ~~y~~ cynnig cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig naill ai:<br>(i) nes bod y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 29.4; neu<br>(ii) nes y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i bwyllgor gyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 29.4. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog hon**<br>Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol na ddylid cyflwyno'r cynnig nes bod y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad; ymateb y Llywodraeth oedd y byddai am i hyn gael ei amodi gan 'yn arferol'.<br>Dywedodd y Pwyllgor Busnes y byddai am 'ystyried pa eiriad a fyddai'n rhoi'r diogelwch mwyaf priodol i sicrhau bod y Cynulliad yn cael cyfle i graffu'n briodol ac yn amserol'.<br>Wrth ddrafftio, rydym wedi dod i'r farn fod y ddarpariaeth bresennol yn sicrhau diogelwch gwell nag a fyddai datgan na chaiff cynnig 'ei gyflwyno yn arferol'. |

| | |
|---|---|
| ~~RHEOL SEFYDLOG 30 – Hysbysu mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU~~ | Dileu'r pennawd |
| ~~Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Hysbysu'r Cynulliad yn ei chylch~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30.1 Yn Rheol Sefydlog 30, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru (ac eithrio darpariaeth berthnasol sy'n ddarpariaeth berthnasol o fewn ystyr Rheol Sefydlog 29.1):~~<br>~~(i) sy'n cael effaith sylweddol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol; neu~~<br>~~(ii) sy'n cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed).~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Mae darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon bellach wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 29. |
| ~~Datganiadau Ysgrifenedig mewn Perthynas â Biliau Perthnasol Senedd y DU~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30.2 Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod datganiad ysgrifenedig~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |

~~mewn perthynas â:~~

~~(i) unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;~~

~~(ii) unrhyw Fil Aelod Preifat yn Senedd y DU a oedd yn Fil perthnasol pan y'i cyflwynwyd ac sy'n dal yn Fil perthnasol ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod hwnnw;~~

~~(iii) unrhyw Fil a gyflwynir yn Senedd y DU sydd (neu a fyddai), yn rhinwedd gwelliannau:~~

~~(a) a dderbynnir; neu~~

~~(b) a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi,~~

~~yn y naill Dŷ neu'r llall, yn gwneud darpariaeth berthnasol, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu~~

| | |
|---|---|
| ~~eu derbyn.~~ | |
| ~~30.3 Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig:~~<br><br>~~(i) crynhoi amcanion polisi'r Bil;~~<br><br>~~(ii) pennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol; a~~<br><br>~~(iii) esbonio a fernir ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud ac iddi gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |

Atodiad B

RHEOL SEFYDLOG 29 - Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU

Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Cydsyniad y Cynulliad ar ei chyfer

29.1 Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru:

(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(iii) sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad).

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

29.2 Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm ("memorandwm cydsyniad deddfwriaethol") mewn perthynas â'r canlynol:

(i) unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;

(ii) unrhyw Fil Aelod Preifat yn Senedd y DU a oedd yn Fil perthnasol pan y'i cyflwynwyd ac sy'n dal yn Fil perthnasol

ar ôl y cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod hwnnw;

(iii) unrhyw Fil Preifat y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno;

(iv) unrhyw Fil a gyflwynir yn Senedd y DU sydd (neu a fyddai), yn rhinwedd gwelliannau:

(a) a dderbynnir; neu

(b) a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi,

yn y naill Dŷ neu'r llall, yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd o'r blaen gan y Cynulliad, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn.

29.2A Rhaid i unrhyw aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, sy'n bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil perthnasol osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn gyntaf, ond rhaid iddo beidio â gwneud hynny fel rheol nes bod aelod o'r llywodraeth wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil hwnnw.

29.3 Rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol:

(i) crynhoi amcanion polisi'r Bil;

(ii) pennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol;

(iii) esbonio a fernir ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth honno gael ei gwneud ac iddi gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil;

(iv) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, nodi'r weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod odani;

(v) os gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol eisoes mewn perthynas â'r un darpariaethau yn yr un Bil, nodi sut a pham y mae'r memorandwm newydd yn wahanol i'r memorandwm blaenorol.

29.4 Rhaid i'r Pwyllgor Busnes:

(i) fel rheol gyfeirio unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried a

(ii) sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau ystyried y memorandwm a chyflwyno adroddiad arno.

29.5 [Dilëwyd drwy benderfyniad y Cynulliad]

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**

29.6 Ar ôl i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod, caiff unrhyw aelod, yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 29.2A, gyflwyno cynnig ("cynnig cydsyniad deddfwriaethol") sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno i ddarpariaeth berthnasol gael ei chynnwys mewn Bil perthnasol.

29.7 Rhaid i gynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'i gyflwyno gael ei ystyried gan y Cynulliad.

29.8 Pan gaiff memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'w ystyried gan bwyllgor neu bwyllgorau yn unol â

Rheol Sefydlog 29.4, ni chaniateir trafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig naill ai:

(i) nes bod y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 29.4; neu

(ii) nes y dyddiad cau erbyn pryd y mae’n ofynnol i bwyllgor gyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 29.4.